Y Bont

Cylchgrawn Eglwys Seilo Caernarfon

Hydref 2012
Rhifyn 190

Oedfaon Mis Hydref

7 Hydref - Bore - Gweinidog
Hwyr (5pm): Uno yn Salem:
Gweinyddir y sacrament o fedydd yn oedfa'r bore a bydd Bwrdd Gwerthu Masnach Deg yng nghyntedd Seilo

14 Hydref - Bore a Hwyr: Y Parch Gerallt Lloyd Evans

21 Hydref - Bore a Hwyr: Gweinidog—SUL DIOLCHGARWCH
Cynhelir gwasanaeth diolchgarwch y plant yn oedfa'r bore a gofynnir yn garedig am roddion tuag at y 'Bwrdd Diolchgarwch'. Caiff y rhoddion eu dosbarthu ymhlith aelodau bregus yr eglwys wedi'r gwasanaeth. Bydd rhai o aelodau Seilo a Salem yn cymryd rhan yn oedfa'r hwyr.

28 Hydref - Bore - oedfa i'w threfnu
Hwyr - Mr Dafydd Iwan

Digwyddiadau Mis Hydref

Nos Lun 1 Hyd. (7.30pm) : **Y Gymdeithas Lenyddol**
Swper agoriadol a sgwrs gan Harri a Nan Parri

Nos Iau 4 Hyd (6.45pm) **Lansio llyfr diweddaraf Harri Parri**, '**Ifan Jones a'r Fedal Gee'.** Bydd John Ogwen yn darllen un o'r straeon. Mynediad yn rhad. Croeso i bawb.

Bore Sadwrn 6 Hyd. (11am) **Oedfa i ddiolch am fywyd y ddiweddar Mrs Wendy Morris,** Stryd Fawr, Caernarfon gynt. Croeso i bawb.

Dydd Mercher 10 Hyd: Cynhelir y **Gymdeithasfa yn y Gogledd** yn Ebeneser, Clynnog Fawr. Gwahoddir pawb i oedfa'r hwyr am 7pm. pryd yr ordeinir dau o weinidogion newydd ac y pregethir gan y Parchg Gwenda Richards.

Dydd Mawrth 23 Hyd (3 a 6.30pm): Cynhelir **Henaduriaeth Arfon** ym Merea Newydd, Ordeinir blaenoriaid newydd yn eisteddiad yr hwyr a chroesewir pawb yno.

Taro Mewn - bob bore Mawrth yn Salem (10 -11am)
Seiat - bob bore Mercher (10am - Cyfarfod cyntaf 24 Hydref)
Y Gell Weddi - bob dydd Iau

FFAIR NADOLIG SEILO - DYDD IAU 15 TACH. (1- 4.30 PM)

Cacennau, cynnyrch cartref, anrhegion, gwaith llaw, nwyddau bron yn newydd. Llu o anrhegion Nadolig am bris rhesymol.
Mynediad drwy docyn - £1.

Am Eiliad

Yn ddiweddar bu farw Neil Armstrong, y gŵr cyntaf i gerdded ar y lleuad. Digwyddodd hynny dros ddeugain mlynedd yn ôl ar yr 20fed o Orffennaf, 1969. Yn ôl pob sôn bu trafodaeth hir ynglŷn â pha un o'r tri gofodwr a oedd yn y Llong Ofod Apollo 11 fyddai'n cael y fraint o fod y dyn cyntaf i droedio'r lleuad. Armstrong gafodd y fraint, ac mae'n sicr iddo fyfyrio'n hir cyn penderfynu beth fyddai'i neges gyntaf o'r gofod, a'i eiriau cofiadwy oedd 'cam bach i ddyn, llam aruthrol (giant leap) i ddynoliaeth.'

Mae pawb sy'n cyflawni camp am y tro cyntaf yn sicr o ennill sylw'r cyfryngau, boed hynny'n gerdded ar y lleuad neu hwylio o amgylch y byd. Ond buan y cilia'r diddordeb pan mae rhywun arall yn cyflawni'r un gamp wedyn. Go brin fod enwau Pete Conrad ac Alan Bean yn golygu fawr ddim i neb ohonoch, er iddynt lanio a cherdded ar y lleuad bedwar mis yn ddiweddarach na Neil Armstrong a Buzz Aldrin a hynny ar y Llong Ofod Apollo 12. A dilynwyd hwy gan eraill rhwng Gorffennaf 21 1969 a Rhagfyr 1972. Ond dim ond enwau'r tri gŵr cyntaf i gyflawni'r gamp sydd ar gof a chadw y mwyafrif o bobl erbyn heddiw.

Dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, ym Methlehem Jwdea, ganwyd baban bach a newidiodd gwrs hanes. Bu i'r baban hwnnw dyfu a byw bywyd digon cyffredin fel rhan o deulu yn Nasareth, Galilea. Ac yna, ac yntau'n ddeg a thrigain oed dechreuodd ar weinidogaeth a barodd am gyfnod o dair blynedd cyn iddo gael ei groeshoelio yn y modd mwyaf erchyll, ac yna atgyfodi yn y modd mwyaf gogoneddus. Un waith yn unig y digwyddodd hynny a bu ei effaith ar y byd yn chwyldroadol, oherwydd y baban bach a aned yn Waredwr y Byd oedd neb llai na Mab Duw ei hun, Iesu Grist.

Un waith am byth oedd ddigon
i wisgo'r goron ddrain;
un waith am byth oedd ddigon
i ddiodde'r bicell fain;
un aberth mawr yn sylwedd
yr holl gysgodau i gyd;
yn Iesu croeshoeliedig
yn feddyg drwy'r holl fyd.

CFf 507

Dim on unwaith yn unig oedd angen i hynny ddigwydd, ac mae'r cyfan mor newydd a rhyfeddol heddiw ag ydoedd ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Megis y dywed Robert ap Gwilym Ddu yn ei emyn mawr:

'Mhen oesoedd rif y tywod mân
ni fydd y gân ond dechrau;
rhyw newydd wyrth o'i angau drud
a ddaw o hyd i'r golau

CFf 492

Byddwn yn diolch am fendithion dirifedi dros yr Ŵyl o Ddiolchgarwch. Gadewch inni hefyd ddiolch am yr un bywyd hwnnw a gafodd gymaint o ddylanwad arnom oll, sef Iesu Grist.

Gwenda Richards

Coffâd

Arwyn Teifion Thomas, Pen y Parc, Ffordd y Faenol

Cofiwn yn annwyl am Teifion a diolchwn am ei fywyd. Ei gariad cyntaf oedd ei deulu a bu'n briod cywir i Gwenan, yn dad heb ei ail i Rhys, Aled, Catrin a Lisa, ac yn fab a brawd cywir iawn. Ei ail gariad oedd rygbi, a rhoddodd oes o wasanaeth i'r

gêm fel chwaraewr a dyfarnwr. Bu'n athro cydwybodol a roddai o'i orau bob amser. Daeth tyrfa fawr iawn i'w angladd yn yr Amlosgfa ym Mangor. Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â'i deulu yn eu profedigaeth gan ddymuno Duw yn nerth ac yn gynhaliaeth iddynt yn eu hiraeth.

Gwaeledd

Bu amryw o aelodau'r eglwys yn wael yn ystod y mis ac anfonwn ein dymuniadau da am wellhâd buan atynt oll. Mae **Mr Arthur Rowlands**, Arenig, Ffordd Bethel a **Mr Emyr Parry**, Tre'r Ceiri, 5 Llwyn Ceirios, ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd. Treuliodd **Mr Edgar Parry**, Awelfryn, Stryd Thomas a **Mr Doris Parry,** Wenallt, Pengelli Wyn, gyfnod yn Ysbyty Gwynedd fel y gwnaeth **Mr Glyn Edwards,** 4 Rhes Pretoria a **Mrs Rhoda Jones,** Craig Menai, Ffordd Bangor. Derbyniodd **Mrs Margaret Morris Jones** lawdriniaeth yn Lerpwl.

Diolch

Dymuna Mrs Margaret Morris Jones, Pen y Garth, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau, ac yn arbennig i'w ffrindiau yn Seilo am bob caredigrwydd yn ystod cyfnod ei gwaeledd a'i harhosiad yn yr ysbyty yn Lerpwl yn ddiweddar.

Stampiau a Photel 5 ceiniogau

Cofiwch gadw ar gyfer Cymdeithas y Deillion stampiau sydd wedi eu defnyddio. Gellir eu gadael yn y bocs priodol sydd yng nghyntedd y capel.
Cofiwch hefyd am y 'botel 5c' sydd yng nghyntedd y capel bob Sul. Mae'r arian eleni yn mynd tuag at Apêl Guatemala'.

Apêl Llid yr Ymennydd

Ddydd Gwener, 15 Medi, cynhaliwyd Bwrdd Gwerthu ar y Maes dan ofal chwiorydd yr eglwys a chasglwyd £376 tuag at Apêl Llid yr Ymennydd. Diolchir i bawb am eu cefnogaeth ac yn arbennig i swyddogion ac aelodau'r pwyllgor chwiorydd am eu llafur.

Gwefan

Erbyn hyn mae Gwefan Henaduriaeth Arfon yn weithredol, a gallwch ei gweld trwy fwydo 'www.henaduriaetharfon.org'
i'ch cyfrifiadur I weld adran Eglwys Seilo oddi mewn i'r wefan, cliciwch ar 'Eglwysi Dosbarth Caernarfon' ac yna ar 'Seilo, Caernarfon'. Bydd y Bont yn ymddangos ar y wefan yn fisol

Os oes unrhyw riant nad yw'n awyddus i lun o'i blentyn/blant ymddangos ar y wefan gofynnir yn garedig iddo/iddi gysylltu â'r Gweinidog (676435)

Cyfeiriad ebost

Dymuna'r gweinidog ddiolch i bawb sydd wedi ymateb i'w chais am gyfeiriadau ebost. Dyfal donc a dyr y garreg, felly apelir eto ar i'r gweddill ohonoch ymateb i'w chais. Byddai derbyn y cyfeiriadau hyn yn galluogi'r gweinidog i gysylltu ar fyrder â'r aelodau pe bai angen gwneud hynny. Cysyllter â'r gweinidog
ar - abermenai@btinternet.com

Blodau'r Sul
Dyma'r chwiorydd fydd yn gyfrifol am flodau ar gyfer oedfaon mis Hydref: **Mrs Alwena Lewis** (7); **Mrs Gwenno Williams** (14); **Mrs Eurwen Williams** (21); **Mrs Janice Jones** (28).

Apêl Guatemala
Diolch i bawb sydd o hyd yn codi arian tuag at Apêl Guatemala. Rydym ar y ffordd tuag at gyrraedd ein nôd o £6,500. Llawer o ddiolch i'r rhai ohonoch sydd wedi cynnal 'te bach' tuag at yr Apêl. Gallwch barhau i wneud hyn tan ddiwedd y flwyddyn.

Ffair Nadolig Seilo
Daeth yn bryd eto i baratoi ar gyfer ein Ffair Nadolig flynyddol a gynhelir eleni rhwng 1pm a 4.30pm prynhawn dydd Iau, 15 Tachwedd. Mae hon yn ffair sylweddol sy'n tyfu'n flynyddol gyda phobl yn teithio bellter i'w mynychu. Mae nifer o chwiorydd yr eglwys yn gweithio'n galed ar ei chyfer gan ddechrau'r paratoadau fisoedd ymlaen llaw. Ymhlith y stondinau eleni bydd stondin gacennau a chynnyrch cartref, stondin cynnyrch gardd, stondin anrhegion a stondin bron yn newydd. (Ni dderbynnir dillad na llyfrau oedolion). Derbynnir tegannau a llyfrau plant mewn cyflwr da.

Bydd tocynnau ar gael gan aelodau'r pwyllgor cyn diwedd y mis. Os oes unrhyw aelod (gŵr neu wraig) nad yw ar y pwyllgor yn fodlon cynorthwyo i werthu tocynnau gellir cael rhai gan yr ysgrifennydd, Mrs Beryl Roberts (671067). Pris tocyn yw £1. Bydd yr elw eleni yn cael ei rannu rhwng Seilo ac Apêl Guatemala.

Apelir am roddion ar gyfer y byrddau a'r tombola. Ceir mwy o fanylion a chyfarwyddiadau yn rhifyn nesaf y Bont.

Basgedi
Mae'r Gweinidog, yn ôl ei harfer yr adeg hon o'r flwyddyn, yn apelio am fasgedi gwellt ar gyfer y Ffair Nadolig.
Mae hi hefyd yn derbyn archebion ar gyfer 'Pwdin Dolig'. Pris: Mawr (2lb) = £9, Canolig (1lb) = £5, Bach = £2.50.

Operation Christmas Child
Bydd cyfle i baratoi bocsys ar gyfer apêl flynyddol "Operation Christmas Child" eto eleni. Ceir manylion pellach yn rhifyn mis Tachwedd y Bont.

Gair o Ddiolch
Dyna sy'n ddyledus i Mrs Olive Blackwood sy'n ymddeol ar ôl dosbarthu'r Bont yn ardal Rhosbodrual am flynyddoedd lawer. Diolch yn fawr Olive, a diolch hefyd i Mr Glyn Robinson am dderbyn y cyfrifoldeb o hyn ymlaen

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf I law'r golygydd erbyn Hydref 20fed

Gweinidog: Parchg Gwenda Richards 676435
Golygydd: Mrs Angharad Rhys Williams 674865